# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## ADOLYGU'R POLISI TROSGLWYDDO STOC TAI: ARGYMHELLION DRAFFT

### Pwnc

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar restr gychwynnol o argymhellion a luniwyd yn sgil adolygu'r polisi trosglwyddo stoc tai.

### Argymhelliad

2. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr argymhellion drafft a restrir yn yr atodiad.

### Amseru

3. Yng ngoleuni barn y Pwyllgor ar yr argymhellion drafft, cychwynnir ar y gwaith o baratoi adroddiad y Pwyllgor ar yr adolygiad.

### Cefndir

4. Yn dilyn y drafodaeth a gafodd y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr ynghylch y materion sy'n deillio o'r adolygiad, fel a nodir ym mhapur LGH-15-00 (p.6), paratowyd rhestr gychwynnol o argymhellion o'r adolygiad. Byddai'n ddefnyddiol i gael barn y Pwyllgor ar yr argymhellion ar yr adeg hon er mwyn hwyluso'r gwaith o baratoi'r adroddiad ar yr adolygiad.

5. Mae peth gwaith i'w wneud o hyd ar yr adolygiad, gan gynnwys cyflwyniadau gan y Rhaglen Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat, Cyngor y Benthycwyr Morgeisiau a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru. Wrth gwrs, bydd modd i'r Pwyllgor fireinio'r argymhellion yng ngoleuni'r gwaith pellach hwn. Trwy ddilyn y drefn hon, bydd y Pwyllgor yn gallu glynu at amserlen yr adolygiad fel a nodir ym mhapur LGH-10-00 (p.5).

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ionawr 2001**